Nodau Datblygu'r Mileniwm
Nod Datblygu'r Mileniwm 3 – Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, a grymuso menywod

Gwybodaeth a gweithgareddau



Targed – Dileu anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn addysg gynradd ac uwchradd, yn ddewisol erbyn 2005, ac ym mhob lefel o addysg cyn 2015.

Mae menywod a merched yn chwarae rhan hanfodol o fewn teuluoedd ac yn y gymdeithas yn gyfan – ac eto maent yn dioddef camwahaniaethu ar lefelau cymdeithasol, gwleidyddol a chyfreithiol. Er bod nifer o fenywod wedi cychwyn gwireddu eu potensial, mae rhwystrau enfawr i'w goresgyn o hyd.

Mae nifer o fenywod yn dioddef anfanteision anghydraddoldeb rhyw o'u genedigaeth. Er enghraifft, mewn rhai gwledydd mae triniaeth ffafriol rhieni i blant gwrywaidd yn golygu fod merched bach yn llai tebygol o oroesi.

Mewn nifer o wledydd, yn arbennig y rhai incwm isel, mae merched yn fwy tebygol o adael yr ysgol a derbyn llai o addysg na bechgyn, yn sgil camwahaniaethu neu ddyletswyddau cartref. Ar y cyfan, mae menywod llawer llai tebygol o gael swyddi da na dynion, neu i gael eu hethol ar bwyllgorau, senedd a chynulliad cenedlaethol. Mae llawer i'w wneud cyn i fenywod ledled y byd gael cyfleoedd a chefnogaeth angenrheidiol i chwarae rhan fwy mewn cymdeithas.

Ymysg y gweithgareddau ar gyfer y nod hwn

Astudiaeth achos Liberia
Gwybodaeth am ferch yn Liberia y mae addysg yn ei chynorthwyo i gael dyfodol gwell.

A fydd Jaya'n medru aros yn yr ysgol?
Gweithgaredd chwarae rôl am ferch a fydd o bosibl yn gorfod gadael yr ysgol.

Arolwg addysg
Disgyblion yn cynnal arolwg i'w cynorthwyo i feddwl am addysg a rhyw yn eu gwlad eu hunain.

Nod Datblygu'r Mileniwm 3 – Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a grymuso menywod

Targed – Dileu anghydraddoldeb rhyw mewn addysg gynradd ac uwchradd, yn ddewisol erbyn 2005, ac ym mhob lefel addysg cyn 2015.

Mae menywod a merched yn chwarae rhan hanfodol mewn teuluoedd a chymdeithas yn gyfan – eto maent yn destun camwahaniaethu ar lefel cymdeithasol, gwleidyddol a chyfreithiol. Er bod nifer o fenywod wedi cychwyn cyflawni eu potensial, mae rhwystrau enfawr i'w goresgyn o hyd.

Mae nifer o fenywod yn dioddef anfanteision anghydraddoldeb rhyw o'u genedigaeth. Er enghraifft, mewn rhai gwledydd mae triniaeth ffafriol rhieni i blant gwrywaidd yn golygu fod merched bach yn llai tebygol o oroesi. Mewn nifer o wledydd, yn arbennig rhai incwm isel, mae merched yn fwy tebygol o adael yr ysgol a derbyn llai o addysg na bechgyn yn sgil camwahaniaethu neu ddyletswyddau cartref.

Gwnaed cynnydd i ostwng y nifer o ferched nad ydynt yn yr ysgol, ond mae ffordd bell i fynd. Ar gyfer bob 100 bachgen allan o'r ysgol ledled y byd mae 132 o ferched, ac mewn rhai gwledydd, mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn llawer ehangach. Er enghraifft, ar gyfer bob 100 o fechgyn sydd allan o'r ysgol yn India, mae 426 o ferched.[1] Hefyd mae problemau'n atal merched rhag aros yn yr ysgol: ledled y byd, 66 y cant yn unig o ferched gwblhaodd eu haddysg gynradd yn 2004, o'i gymharu gyda 76 y cant o fechgyn.[2]

Ar y cyfan, mae menywod yn llawer llai tebygol o gael swyddi da na dynion, neu i gael eu hethol ar bwyllgorau, senedd a chynulliad cenedlaethol. Mae drysau yn agor yn araf ar gyfer menywod yn y farchnad llafur, gyda thwf yng nghyfranogiad menywod mewn cyflogaeth nad yw'n amaethyddol. Fodd bynnag, mae llafur menywod yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod yn ddigyflog na dynion, gan arwain at ddiffyg sicrwydd swyddi a diffyg amddiffyniad cymdeithasol. Mae rhoi cyfleoedd a chefnogaeth sy'n angenrheidiol i fenywod chwarae rôl ehangach yn y gymdeithas yn llesol i deuluoedd, yr economi a chymdeithas gyfan.

1 *Global Monitoring Report* 2007, UNESCO

2 Education Statistics (EdStats), www.worldbank.org/

Stori Mary – Liberia

Ar y poster hwn mae Mary Kolleh, pump oed, yn dysgu'r wyddor gydag Ophelia M G Williams, yn Ysgol Elfennol Yawerlee yn Liberia.

Mae Liberia yn y broses o ailgodi ar ôl dros ddeng mlynedd o ryfel cartref, sydd wedi gadael nifer o bobl yn dlawd ac yn fregus. Yn 2006 daeth yr arlywydd, Ellen Johnson-Sirleaf, yn arweinydd etholedig benywaidd cyntaf Affrica, Er mwyn cynorthwyo i ailadeiladu'r wlad mae'r llywodraeth yn annog merched i fynd i'r ysgol. Fodd bynnag, mae merched yn wynebu her arbennig. Yn aml mae'n rhaid iddynt weithio i gynnal eu teuluoedd, ac mae priodi'n ifanc, beichiogrwydd merched ifanc a ffafriaeth i fechgyn yn aml yn golygu fod yn rhaid iddynt adael yr ysgol yn gynnar. Mewn amgylchedd lle mae trais ac ecsbloetio rhywiol yn parhau i fod yn broblemau difrifol, mae perygl iddynt ddal HIV.

Gweithgaredd poster (9–14 oed)

1. Gofynnwch i’r disgyblion edrych yn ofalus ar y llun a disgrifio manylion yr hyn a welir.
2. Darllenwch yr astudiaeth achos, stori Mary - Liberia, gan egluro unrhyw eiriau anodd. Darllenwch eilwaith, a gofynnwch iddynt gymryd nodiadau.
3. Gofynnwch y cwestiynau canlynol:
   - Pa her arbennig sy’n wynebu merched sydd am fynd i’r ysgol yn Liberia?
   - Pa fuddiannau fydd i Mary a’i theulu os fydd yn cwblhau addysg gynradd, ac efallai uwchradd?
   - A yw’r sialensiau a’r buddiannau yr un fath i ferched ledled y byd?

Os fydd Mary’n cael cyfle i gwblhau ei haddysg gynradd, a hyd yn oed fynychu ysgol uwchradd, bydd hi, ei theulu a’i chymuned yn gweld buddiannau mawr. Bydd ei gallu ennill arian yn cynyddu, a’i dylanwad yn y gweithle; bydd ei phlant yn fwy tebygol o fod yn iach; bydd hi’n fwy tebygol o fyw yn hirach a goroesi wrth eni plant. Yn syml, mae addysgu merched yn hanfodol wrth oresgyn tlodi ac anghydraddoldeb rhyw.

Llwyddodd llywodraeth Liberia i ddileu ffioedd ysgol ar gyfer ysgolion cynradd yn 2007 oherwydd bod gwledydd cyfoethog wedi dileu rhai o’u dyledion. Fodd bynnag, mae angen mwy o arian er mwyn i blant fel Mary gyflawni eu potensial.

Gweithgaredd 3.1

Oes modd i Jaya aros yn yr ysgol? (7-14 oed)

Nod

- Annog disgyblion i feddwl pam na all rhai merched fynd i’r ysgol.

Bydd angen

- Copi o’r cardiau chwarae rôl ar dudalen 3 ar gyfer pob grŵp o bedwar disgybl.

1. Gyda’r dosbarth yn gweithio mewn grwpiau o bedwar, rhowch un set o’r cardiau chwarae rôl i bob grŵp. Gofynnwch i bob un ddewis rhan, a llunio drama ar sail eu rôl. Mae Jaya a’i theulu yn byw yn y Punjab ym Mhacistan, Gall y disgyblion ymhelaethu ar y rôl os ydynt yn dymuno. Dylai pob grŵp benderfynu beth sy’n digwydd nesaf. Gallai rhai grwpiau ddod o hyd i ffyrdd i gadw Jaya yn yr ysgol, tra bod eraill yn datblygu stori lle mae’n rhaid iddi adael.
2. Gofynnwch i’r grwpiau berfformio eu dramâu i’w gilydd. Stopiwch bob drama cyn ac ar ôl y penderfyniad am yr hyn sy’n digwydd nesaf. Sut mae pob cymeriad yn teimlo? Ar y diwedd, rhowch un o’r cymeriadau mewn ‘cadair boeth’. Yna gall aelodau eraill y dosbarth holi cwestiynau i’r person hwn am y rhesymau dros eu penderfyniadau.
3. Yn olaf, trafodwch gyda’r dosbarth sut llwyddodd Jaya i aros yn yr ysgol neu pam na lwyddodd i aros yn yr ysgol. Ar gyfer dramâu lle’r oedd yn rhaid i Jaya adael, beth fyddai angen newid er mwyn iddi aros yn yr ysgol?

Gweithgaredd 3.2

Gadewch iddi fynd i’r ysgol! (8–14 oed)

Nod

- Galluogi disgyblion i ymarfer eu sgiliau ysgrifennu darbwyllol wrth atgyfnerthu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth am addysg a materion rhyw.

Nodyn: Mae’r gweithgaredd hwn yn dilyn Gweithgaredd 3.1.

1. Gofynnwch i’r disgyblion ddychmygu fod rhieni Jaya yn ystyried addysg Jaya ar hyn o bryd. Ysgrifennwch lythyr oddi wrth Fatima at Kesro a Razia i’w perswadio y dylai Jaya aros yn yr ysgol.
2. Trafodwch gyda’r dosbarth beth sy’n iaith briodol ar gyfer ysgrifennu darbwyllol, er enghraifft y defnydd o ailadrodd, neu ymadroddion darbwyllol megis ‘rwy’n credu’n gryf y dylid…’,‘A oes unrhyw ffordd arall?’, ‘Credaf yn gryf fod…’. Gallai’r llythyr hefyd gynnwys syniadau posibl i rieni Jaya fedru ei chadw yn yr ysgol.

A fydd Jaya yn medru aros yn yr ysgol?

TAD Ti yw tad Jaya, Kesro. Mae gen ti dri o blant: dau fachgen a merch, Jaya. Rwyt yn gweithio'n galed fel labrwr mewn ffatri i ennill digon o arian iddynt fynychu'r ysgol, ond yn ddiweddar mae wedi bod yn anoddach cael gwaith, a fedri di ddim fforddio'r ffioedd ysgol ar gyfer pob un o'r plant. Rwyt yn credu nad yw addysg mor bwysig i fenywod, gan eu bod fel rheol yn gweithio yn y caeau neu'n aros adref fel gwragedd tŷ, Yn amlwg, rhaid i Jaya adael yr ysgol. Bydd y bechgyn yn parhau gyda'u haddysg er mwyn iddynt gael swyddi a chyfrannu at y cartref. Bydd Jaya yn priodi a bydd ei gŵr yn gofalu amdani, felly nid yw addysg mor bwysig iddi hi.	**JAYA** Ti yw Jaya. Rwyt ti'n ferch 12 oed, ac wedi bod yn yr ysgol ers pum mlynedd. Rwyt yn gweithio'n galed, ac wedi bod ar frig y dosbarth nifer o weithiau. Rwyt yn mwynhau yn yr ysgol ac wedi gwneud llawer o ffrindiau yno. Hoffet fod yn athrawes ar ôl tyfu. Rwyt yn credu ei bod yn annheg fod rhaid i ti adael yr ysgol tra bod dy ddau frawd yn parhau i gael eu haddysg. Hefyd mae'n rhaid i ti dreulio mwy o amser ar ddyletswyddau'r cartref na nhw, ac eto rhaid i ti wneud dy waith cartref hefyd.
MAM Ti yw mam Jaya, Razia. Mae gen ti dri o blant: dau fachgen a merch, Jaya. Ni chefaist addysg dy hun, ac rwyt yn falch fod Jaya wedi bod yn yr ysgol am rai blynyddoedd. Rwyt yn gobeithio y bydd hyn yn golygu y gall weithio pan fydd wedi tyfu. Serch hynny, dy brif bryder yw y dylai briodi. Dyma'r peth pwysicaf. Rwyt hefyd yn poeni os fydd Jaya yn parhau gyda'i haddysg, na fydd ganddi gymaint o amser i helpu gyda'r gwaith tŷ.	**MODRYB** Ti yw modryb Jaya, Fatima. Rwyt yn briod ac mae gen ti ddau o blant. Roeddet yn ddigon ffodus i gwblhau dy addysg, ac rwyt wedi gweithio mewn swyddfa ers i dy blentyn diwethaf fynd i'r ysgol chwe blynedd yn ôl. Mae hyn yn golygu fod modd i ti anfon dy blant i gyd i'r ysgol. Rwyt yn deall pwysigrwydd addysg i ferched a bechgyn. Gall merched sydd wedi cael addysg gyfrannu'n ariannol i'r cartref. Bellach, gallant hefyd ddod yn weision sifil, neu Aelodau Seneddol. Gallant hefyd gyfrannu at addysg eu plant eu hunain yn y cartref.

Gweithgaredd 3.3

A yw bechgyn yn haeddu addysg yn fwy na merched? (8–14 oed)

Nod

- Annog disgyblion i feddwl yn feirniadol am addysg a rhyw.
- Eu galluogi i gydymdeimlo gyda merch sy'n byw dan amodau anodd yn Kenya.

Bydd angen

- Copi o *Barn o Kenya* isod i gyfeirio ato.

1. Mae addysg i bawb yn hawl. (Gweler Gweithgaredd 2.3 ar Poster 2 ynglŷn â hawliau.) Fodd bynnag, mae'n aml yn llawer anoddach i ferched gael addysg na bechgyn. Darllenwch *Barn o Kenya* (isod) i'r dosbarth.
2. Gofynnwch i'r disgyblion lunio dwy golofn dan y penawdau 'Barn Maria am addysg i ferched' a 'Barn Maria am addysg i fechgyn'. Yn y golofn gyntaf dylid rhestru'r ffyrdd y mae Maria'n meddwl ei bod yn anodd i ferched gael addysg. Yn yr ail golofn dylid rhestru'r ffyrdd y mae'n meddwl ei bod yn haws i fechgyn.
3. Trafodwch y canlyniadau fel dosbarth. A oes modd i'r dosbarth feddwl am ffyrdd eraill y gall fod yn anoddach i ferched gael addysg na bechgyn? A oes unrhyw dystiolaeth yn stori Maria fod Newid Hinsawdd yn medru effeithio ar addysg merched yn Kibera? A yw'r disgyblion yn credu y byddai barn Maria yn wir i bob teulu?

Barn o Kenya

Mae Maria wedi byw drwy gydol ei hoes yn Kibera, slym yn Nairobi, Kenya. Mae'n rhaid iddi wneud yr holl ddyletswyddau cartref arferol, ond mae'n llwyddo i fynd i'r ysgol. Ei huchelgais yw aros yno, ac yn y pen draw i weithio gyda chyfrifiaduron. 'Weithiau nid oes gan rieni ddiddordeb mewn addysgu eu merched, felly nid ydynt yn cymryd llawer o sylw o'n gwaith. Maent yn dweud nad yw merched yr un fath â bechgyn. Mae merched yn priodi, ac nid ydynt yn cyfrannu at incwm y teulu. Mae bechgyn yn gweithio ac yn helpu i ddarparu ar gyfer y teulu. Gwyddom fod nifer o ferched heddiw yn cynorthwyo gyda chostau'r teulu, ond y teimlad o hyd ymysg rhieni yw fod addysg i ferched yn llai pwysig. 'Rwy'n credu fod addysg i ferched yn bwysig, oherwydd heb dystysgrif ysgol, nid oes unrhyw swyddi. Ond yn aml mae'n anodd i ferched gan nad oes ganddynt amser i adolygu. Mae merched yn cael eu hanfon i gasglu dŵr, i'r siop, i olchi'r llestri, yn cael eu hanfon yma a thraw, wrth i fechgyn eistedd i adolygu. Ni all merched wneud eu gwaith cartref hyd yn oed. Nid ydym yn cael llonydd i wneud hynny. **Mae prinder dŵr yn Kibera. Rhaid i ferched gael eu hanfon i chwilio amdano, beth bynnag yw'r pellter. Ni fydd bechgyn byth yn casglu dŵr o ddewis.'**

Gweithgaredd 3.4

Arolwg addysg (11–14 oed)

Nod

- Annog disgyblion i feddwl am rhyw ac addysg yn y DU.

1. Dywedwch wrth y disgyblion i gynnal arolwg yn yr ysgol am y gwahaniaethau addysgiadol rhwng bechgyn a merched. A yw bechgyn a merched yn dewis pynciau gwahanol? A yw naill neu'r llall o'r rhywiau yn cael gwell canlyniadau? Gofynnwch iddynt ddarganfod a oes gwahaniaeth yn y pynciau sy'n cael eu hastudio ar gyfer TGAU a lefel A. Gellid hefyd gwneud arolwg o'r athrawon yn yr ysgol. A oes pynciau sy'n cael eu dysgu'n bennaf gan ddynion, neu'n bennaf gan fenywod? Gofynnwch iddynt gyfweld athrawon i ddarganfod pam fod gwahaniaeth yn eu barn hwy.
2. Trafodwch ganfyddiadau'r disgyblion. Trafodwch y syniadau am ddisgwyliadau ar gyfer merched a bechgyn. Sut mae merched a bechgyn yn gweld swyddogaethau dynion a menywod? A ydynt yn credu fod gan ddynion a menywod gyfle cyfartal? A yw hyn yn newid wedi i fenywod gael plant? A yw swyddogaethau dynion a menywod yn adlewyrchu eu llwyddiannau (neu ddiffyg hynny) yn yr ysgol?

Llwyddiannau

Gyda chefnogaeth Banc y Byd[1], lansiodd llywodraeth Bangladesh brosiect cenedlaethol gyda'r nod o wella llwyddiant addysgiadol merched drwy nodau penodedig. Cynhaliwyd Prosiect Cymorth Ysgolion Uwchradd i Ferched I a II i ddechrau rhwng 1994 a 2001 ac roedd mor llwyddiannus nes i'r llywodraeth gynnal rhaglen arall rhwng 2002 a 2008. Neidiodd y nifer o ferched a oedd yn cofrestru mewn ysgolion uwchradd ym Mangladesh o 1.1 miliwn yn 1991 i 3.9 miliwn yn 2005. Roedd y prosiect yn arbennig o lwyddiannus yn cyrraedd at a chynnwys merched difreintiedig ac mewn ardaloedd anghysbell.

[1] *Addaswyd o: The World Bank, International Development Association "Stipends Help Triple Girls' Access to School in Bangladesh":http://go.worldbank.org/RRBXNQ0NX0*

Sut i weithredu

Darllenwch hanes y llwyddiant uchod, a thrafodwch gyda'r disgyblion sut y gall pobl ddylanwadu ar lywodraethau wrth gynorthwyo gwledydd sy'n datblygu i gyflawni NDM 3. Ar ôl y wers, efallai y bydd rhai myfyrwyr eisiau gweithredu ar y materion a godwyd. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer camau posibl i fyfyrwyr.

Camau

- Cynnal "Diwrnod Hawliau Dynol" ar 10 Rhagfyr, gyda chydraddoldeb rhwng y rhywiau fel ffocws.
- Cynnal digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Menywod ar 8 Mawrth. http://www.un.org/ecosocdev/geninfo/women/womday
- Cyflwyno gwasanaeth gyda'r broblem merched/bechgyn. Er enghraifft, beth fyddai'n digwydd pe bai merch yn chwarae pêl-droed yn wych, ond nad oedd yn cael ymuno gyda thîm yr ysgol (bechgyn yn unig)? Beth pe bai'r holl ferched yn derbyn £5 neu loshin, a'r bechgyn yn derbyn dim?
- Gwahoddwch rhai arweinwyr benywaidd i'r ysgol i'w cyfweld. Beth am bennaeth ysgol, prif weithredwr cwmni, pennaeth corff anllywodraethol, arweinydd y 'Guides'.

Codi arian

- Trefnu twrnamaint chwaraeon i ferched a chodi tâl mynediad.

NODER Cofiwch ein hysbysu am unrhyw gamau gennych chi neu eich disgyblion. education@oxfam.org.uk

Am fwy o adnoddau am gydraddoldeb rhyw ewch at:

www.oxfam.org.uk/education/resources/developing rights

www.oxfam.org.uk/education/resources/climate change poverty women

Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau posibl i ysgolion a grwpiau ieuenctid, ac rydym am asesu effaith ein gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddiwch y slip isod i ddweud wrthym am eich gwersi neu brosiectau NDM neu anfonwch ebost at education@oxfam.org.uk

……………..✂……

Enw Athro:

Enw a Chyfeiriad yr Ysgol:

Cod Post:

Ebost*

Nifer o ddisgyblion sy'n dysgu am yr NDM:
Oedran disgyblion:

Disgrifiad addysg NDM:

Dychwelwch y slip hwn at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion Oxfam
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

*Nodwch eich cyfeiriad ebost er mwyn derbyn negeseuon gennym am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Gallwch dynnu'ch enw oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg. Hoffem eich hysbysu am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, pe bai'n well gennych beidio derbyn gwybodaeth o'r fath, anfonwch ebost at changes@oxfam.org.uk, ffoniwch 0300 200 1300 neu ysgrifennwch at Cyswllt Cefnogwyr, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.